

Rhif - Cyfrifo

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	CA2 - Amrediad	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
<p>Defnyddio geirfa'r pedwar gweithrediad. Defnyddio mathemateg fel rhan annatod o weithgareddau'r ystafell ddosbarth.</p> <p>Gwybod y gellir adio mwy na dau rif at ei gilydd.</p> <p>Adio a thynnu rhifau wrth ddatrys problemau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych.</p> <p>Deall adio fel cyfuno setiau i greu cyfanswm a chmau ar hyd llwybr rhif, a thynnu fel 'cymryd i ffwrdd' neu 'wahaniaeth'.</p> <p>Cynrychioli gwaith drwy ddefnyddio gwrthrychau neu luniau, a'i drafod.</p> <p>Grwpio gwrthrychau mewn deuoedd, pumoedd a degau.</p> <p>Cyfrif mewn deuoedd, pumoedd a degau.</p> <p>Rhannu setiau o wrthrychau mewn sefyllfaoedd ymarferol.</p>	<p>Defnyddio a dechrau darllen geirfa'r pedwar gweithrediad. Siarad am waith drwy ddefnyddio iaith fathemategol gyfarwydd.</p> <p>Cofio ffeithiau rhif hyd at 10 er mwyn adio a thynnu rhifau mwy.</p> <p>Deall adio fel cyfrif camau ar hyd llinell rif a thynnu fel cymryd i ffwrdd, gwahaniaeth ac adio ategol.</p> <p>Gwybod y gellir adio mewn unrhyw drefn. Dechrau deall bod adio'n dadwneud tynnu.</p> <p>Gwiriwch gyfrifiadau adio a lluosu drwy eu gwneud mewn trefn wahanol.</p> <p>Cofnodi adiaidau / tyniadau meddyliol mewn brawddeg rif gan ddefnyddio +, - a = Cynrychioli gwaith drwy ddefnyddio symbolau a diagramau syml.</p> <p>Deall lluosu fel adio niferus, neu fel disgrifio arae.</p> <p>Gwybod a defnyddio haneru fel gwrthdro dyblu.</p> <p>Dechrau deall rhannu fel grwpio, tynnu niferus neu rannu.</p> <p>Adnabod a defnyddio haneru a chwarteru mewn sefyllfaoedd ymarferol – siapiau a setiau o wrthrychau. Adnabod cywerthyddion syml.</p>	<p><b>Archwilio patrymau a pherthnasoedd:</b></p> <p><b>Archwilio perthnasoedd gwrthdro adio a thynnu, a lluosu a rhannu.</b></p> <p><b>Cyfrifo mewn sawl ffordd:</b></p> <p><b>Defnyddio'r perthnasoedd rhwng y pedwar gweithrediad, gan gynnwys gwrthdroeon; adnabod sefyllfaoedd ble mae gwahanol weithrediadau yn berthnasol</b></p> <p><b>Defnyddio dulliau amrywiol o gyfrifo yn y pen; ymestyn dulliau ysgrifenedig anffurfiol i ddulliau heb gyfrifiannell</b></p> <p><b>Defnyddio ffracsiynau a chanrannau i amcangyfrif, disgrifio a chymharu cyfrannau rhif cyfan.</b></p> <p><b>Cyfrifo ffracsiynau a chanrannau symiau.</b></p>	<p>Defnyddio a darllen geirfa'r pedwar gweithrediad. Siarad am waith a'i esbonio.</p> <p>Parhau i ddatblygu dealltwriaeth o adio fel cyfrif ar hyd camau ar llinell rif. Deall tynnu fel cymryd i ffwrdd, gwahaniaeth ac adio ategol.</p> <p>Gwybod nad yw tynnu'n gymudol. Gwybod bod adio'n dadwneud tynnu.</p> <p>Gwiriwch tynnu gydag adio, haneru gyda dyblu, rhannu gyda lluosu.</p> <p>Defnyddio nodiadau i helpu cyfrifiadau meddyliol. Defnyddio a dehongli symbolau a diagramau mathemategol.</p> <p>Deall y weithred lluosu fel adio niferus. Gwybod y gellir lluosu mewn unrhyw drefn.</p> <p>Adnabod mai yw gwrthdro x ac mai haneru yw gwrthdro dyblu. Defnyddio gwybodaeth am ddyblu a haneru i luosi a rhannu.</p> <p>Deall rhannu fel grwpio, tynnu niferus neu rannu. Deall y syniad o weddill mewn sefyllfaoedd ymarferol. Gwybod nad yw rhannu'n gymudol.</p> <p>Adnabod ffracsiynau uned fel <math>\frac{1}{2}</math>, <math>\frac{1}{3}</math>, <math>\frac{1}{4}</math>, <math>\frac{1}{5}</math>, <math>\frac{1}{10}</math> a'u defnyddio i gyfrifo ffracsiynau siapiau a rhifau.</p>	<p>Trefnu gwaith, gwirio canlyniadau, a rhoi cynnig ar wahanol ddulliau.</p> <p>Gwybod bod yr ateb yn negyddol pan y tynnir rhif mwy o un llai.</p> <p>Esbonio a defnyddio egwyddorion deddfau cymudol a chysylltiadol adio.</p> <p>Defnyddio'r gwrthdro i wirio canlyniadau.</p> <p>Defnyddio dulliau pensil a phapur anffurfiol. Dechrau datblygu dulliau safonol effeithlon y gellir eu defnyddio'n gyffredinol.</p> <p>Gwybod y gellir ymrannu rhifau mwy i wneud lluosu'n haws.</p> <p>Deall rhannu fel dosbarthu'n hafal neu grwpio. Cyfrifo gweddillion rhifau ar ôl rhannu. Dechrau cysylltu rhannu â ffracsiynau.</p> <p>Adnabod ffracsiynau cyfwerth syml. Defnyddio nodiant ffracsiwn. Trefnu ffracsiynau cyfarwydd.</p> <p>Adnabod ffracsiynau syml sy'n nifer o rannau o rif cyfan.</p> <p>Dechrau cysylltu ffracsiynau â rhannu, ac adnabod ffurfiau degol a ffracsiwn</p>	<p>Datblygu strategaethau ar gyfer datrys problemau, a chyflwyno gwybodaeth a chanlyniadau mewn modd systematig.</p> <p>Ymateb i gwestiynau ar lafar neu'n ysgrifenedig sy'n cynnwys y pedwar gweithrediad, ac esbonio'r strategaeth a ddefnyddir.</p> <p>Gwybod a deall egwyddorion deddfau cymudol, cysylltiadol a dosbarthol lluosu.</p> <p>Gwybod mai lluosu yw gwrthdro rhannu, a defnyddio hyn i wirio canlyniadau.</p> <p>Defnyddio amrywiaeth o ddulliau pen ac ysgrifenedig o gyfrifiannu.</p> <p>Parhau i ddatblygu dulliau safonol effeithlon y gellir eu defnyddio'n gyffredinol.</p> <p>Gwybod bod lluosu'n gwneud rhif yn fwy gyda chyfanrifau positif. Dechrau defnyddio cromfachau: gwybod eu bod yn nodi trefn gweithredoedd.</p> <p>Cysylltu rhannu â ffracsiynau. Dechrau mynegi gweddill fel ffracsiwn, neu fel rhif degol wrth rannu rhif cyfan â 2, 4, 5 neu 10.</p> <p>Adnabod pan fo dau ffracsiwn syml yn gyfwerth, gan gynnwys cysylltu canfedau â degfedau. Trosi ffracsiynau pendrwm yn rhifau cymysg, ac fel arall. Defnyddio ffracsiynau syml a chanrannau i ddisgrifio rhannu bras o un cyfan e.e. cyfrifo <math>\frac{1}{2}</math>, <math>\frac{1}{3}</math>, <math>\frac{1}{4}</math>, <math>\frac{1}{5}</math>, <math>\frac{1}{10}</math> rhifau neu symiau. Cysylltu ffracsiynau â rhannu, ac i'w cynrychioliadau degol.</p>	<p>Chwiliant am ateb drwy roi cynnig ar eu syniadau eu hunain.</p> <p>Disgrifio sefyllfaoedd yn fathemategol drwy ddefnyddio symbolau, geiriau a diagramau a llunio casgliadau, gan esbonio eu rhesymeg.</p> <p>Gwirio bod canlyniadau'n rhesymol drwy ystyried cyd-destun neu faint y rhifau.</p> <p>Ehangu dulliau cofnodi i gynnwys degolion. Esboniwrch sut mae dulliau'n gweithio.</p> <p>Defnyddio cromfachau: gwybod eu bod yn nodi trefn gweithredoedd. Defnyddio ffactorau wrth lluosu a rhannu.</p> <p>Mynegi gweddill fel ffracsiwn neu rif degol wedi'i dalgrynnu i un lle degol.</p> <p>Cymharu neu drefnu ffracsiynau syml drwy eu trosi i enwadur cyffredin.</p> <p>Cyfrifo rhannau ffracsiynol neu ganrannol o feintiau a mesuriadau e.e. <math>\frac{9}{8}</math> o 32, <math>\frac{7}{10}</math> o 40, <math>\frac{9}{100}</math> o 400 centimedr. Adnabod degolion, ffracsiynau a chanrannau cyfwerth.</p>

				cyfwerth $\frac{1}{2}$ , $\frac{1}{4}$ a degfedau.		
Defnyddio strategaethau pen i ddatrys problemau syml. Esbonio dulliau a rhesymu ar lafar.	<a href="#">Dewis gweithrediadau priodol wrth ddatrys problemau adio a thynnu.</a> <a href="#">Defnyddio strategaethau cyfrifo yn y pen i ddatrys problemau rhif, arian a mesur.</a>		Dewis a defnyddio gweithrediadau priodol i ddatrys problemau mewn geiriau, a ffyrdd priodol o gyfrifo: pen, pen gyda nodiadau, pensil a phapur. Esbonio dulliau a rhesymeg.	Gwybod nodiant degol ar gyfer degfedau a chanfedau mewn cyd-destun. Gwybod gwerth pob digid yn ffracsiwn degol.	Defnyddio nodiant degol ar gyfer degfedau a chanfedau.  Deall canran fel nifer y rhannau ym mhob 100, a chyfrifo canrannau syml symiau o gyfanrifau llai.	Defnyddio nodiant degol ar gyfer degfedau a chanfedau mewn cyfrifiadau, a degfedau, canfedau a milfedau wrth gofnodi mesuriadau.  Deall canran fel nifer y rhannau ym mhob 100, a chyfrifo canrannau syml symiau o gyfanrifau bach.
Gwybod pob pâr o rifau sy'n adio i 10 ar y cof.	Gwybod pob pâr o rifau sy'n adio i 20 a phob pâr o luosrifau 10 sy'n adio i 100 ar y cof.		Gwybod pob ffaith adio a thynnu ar y cof ar gyfer pob rhif hyd at o leiaf 20, a phob pâr o luosrifau 100 sy'n adio i 1000.	Cyfuno gwybod pob ffaith adio a thynnu ar y cof ar gyfer pob rhif hyd at o leiaf 20. Deillio parau rhifau sy'n adio i 100 a pharau o luosrifau 50 sy'n adio i roi 1000.	Deillio pob pâr 2 ddigid sy'n adio i 100 a phob pâr o luosrifau 50 sydd â chyfanswm o 1000. Deillio parau o ddegolion sy'n gwneud cyfanswm o 1.	Deillio parau o ddegolion sy'n adio i 10 yn gyflym.
Deall dyblu a haneru mewn cyd-destunau ymarferol. Gwybod dyblau adio ar y cof hyd at o leiaf 5+5	Gwybod dyblau adio hyd at 15+15. Haneru eilrifau hyd at 20. Adnabod dyblau agos.  Gwybod ffeithiau llusoi ar gyfer tabl 2 a thabl 10 ar y cof, a deillio'r ffeithiau rhannu cyfatebol yn gyflym.		Deillio dyblau hyd at 20+20 a luosrifau 5 hyd at 100+100 yn gyflym. Haneru unrhyw luosrif 10 hyd at 100 Adnabod a defnyddio dyblau agos.  Gwybod holl ffeithiau llusoi a rhannu ar gyfer tabl 2, tabl 5 a thabl 10 ar y cof.	Deillio dyblau adio hyd at 50+50 a luosrifau 10 hyd at 500+500 yn gyflym.  <a href="#">Defnyddio'u gallu i alw tablau llusoi 2, 3, 4, 5 a 10 i gof wrth ddatrys problemau rhifau cyfan sy'n cynnwys llusoi a rhannu, gan gynnwys y rhai sy'n esgor ar weddillion.</a>	Deillio dyblau adio hyd at 100 + 100, luosrifau o 10 hyd at 1000 + 1000 a luosrifau o 100 hyd at 10000+10000.  <a href="#">Gwybod holl ffeithiau llusoi hyd at 10 x 10 ar y cof a deillio'r ffeithiau rhannu cyfatebol.</a> Gwybod pob rhif sgwâr hyd at 10x10.	Dyblu a haneru ffracsiynau degol i 1 neu 2 le degol.  <a href="#">Cyfuno gwybod holl ffeithiau llusoi hyd at 10 x 10 ar y cof a'r ffeithiau rhannu cyfatebol.</a>
Nodi rhif sydd un yn fwy / llai nag unrhyw rif hyd at 20.	Nodi rhif sydd 1 neu 10 yn fwy / llai nag unrhyw rif dau ddigid.		Nodi rhif sydd 1, 10 neu 100 yn fwy / llai nag unrhyw rif tri digid.			
Adio 9 i rifau un digid drwy adio 10 a thynnu 1.	Yn y pen, adio / tynnu 11 neu 21, neu 9 neu 19, at / o unrhyw rif 2 ddigid drwy ddefnyddio lluosrif nesaf 10 ac addasu.  Cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng pâr o rifau bob ochr i luosrif o 10 drwy gyfrif i fyny.		Yn y pen, adio / tynnu 11, 21 ... or 9,19 ... at / o unrhyw rif 2 ddigid drwy ddefnyddio lluosrif nesaf 10 ac addasu.  Cyfrifo gwahaniaeth drwy gyfrif drwy luosrif nesaf 100.	Yn y pen, adio a thynnu 'lluosrif agos o 10' at neu o rif 2 ddigid.  Cyfrifo gwahaniaeth drwy gyfrif drwy luosrif nesaf 1000.	Adio neu dynnu lluosrif agos i 100 neu 1000 drwy addasu.  Cyfrifo gwahaniaeth drwy gyfrif drwy'r lluosrif nesaf o 10,000.	Adio / tynnu 0.9,1.9...or 1.1, 2.1.... drwy adio / tynnu'r rhif cyfan ac addasu o 0.1 Llusi â 99 neu 101 drwy luosi â 100 ac addasu. Cyfrifo gwahaniaeth drwy gyfrif drwy luosrif nesaf 10, 100 neu 1,000.
Rhoi'r rhif mwyaf yn gyntaf er mwyn cyfrif ymlaen yn fwy effeithlon. Rhannu rhifau'n "5 a thamaid".	Adio tri rhif at ei gilydd drwy roi'r mwyaf yn gyntaf, cyfrifo parau i wneud 10. Rhannu'n ddegau ac unedau.		Adio nifer o rifau at ei gilydd drwy roi'r mwyaf yn gyntaf, cyfrifo parau i wneud 10, parau i wneud 9 neu 11 ac addasu. Rhannu'n ddegau ac unedau.	<a href="#">Datblygu strategaethau rhifyddig pen pellach</a> e.e. defnyddio ffeithiau rhif a gwerth lle a wyddir <a href="#">ar gyfer adio a thynnu rhifau sydd ag o leiaf dau ddigid</a> . Rhannu'n gannoedd, degau ac unedau.	Defnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle i adio neu dynnu yn y meddwl, gan gynnwys rhifau 3 digid, a rhifau hyd at 1 lle degol. Rhannu rhifau'n gannoedd, degau, unedau a degfedau.	Defnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle i adio neu dynnu yn y meddwl, gan gynnwys rhifau 4 digid, a rhifau hyd at 2 le degol. Rhannu rhifau'n gannoedd, degau, unedau, degfedau a chanfedau.
Defnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle i wneud y canlynol yn y meddwl: +/- parau i wneud 10; +/- digid sengl at / o rif yn yr ardddegau;	Defnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle i wneud y canlynol yn y meddwl: +/- digid sengl a rhifau yn yr ardddegau a 10 at / o 2 ddigid; +/- parau o luosrifau 10; x digidau sengl ag 1 neu 10; ÷ lluosrif 2 digid o 10 gydag 1 neu 10.		Defnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle i wneud y canlynol yn y meddwl: +/- digid sengl at / o rif 3 digid; +/- rhif 2 ddigid o luosrif 10 / 100; +/- parau o rifau 2 ddigid a pharau o luosrifau 10 / 100; x digidau sengl ag 1, 10, 100; ÷ 3 lluosrif 3 digid o 100 gyda 10 neu 100.	Defnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle i wneud y canlynol yn y meddwl: +/- digid sengl at / o rif 3 neu 4 digid; +/- parau o rifau 2 ddigid a pharau o luosrifau 100; +/- lluosrifau 10 at / o rifau 2 neu 3 digid; +/- rhifau 3 digid at / o luosrifau 10, 100, 1000; x rhifau 2 / 3 digid â 10 neu 100; ÷ 4 lluosrif 3 digid o 1000 gyda 10 neu 100.	Defnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle i wneud y canlynol yn y meddwl: +/- 3 neu fwy o luosrifau 3 digid 10 a 100; +/- parau o ffracsiynau degol gydag unedau a degfedau; x lluosrif 2 ddigid o 10 gyda lluosrif 3 digid o 100; ÷ lluosrif 4 digid o 1000 gyda 10 neu 100 neu 1000.	Defnyddio ffeithiau rhifau a gwerth lle i wneud y canlynol yn y meddwl: +/- pâr o luosrifau 4 digid o 100; <a href="#">+/- parau o ffracsiynau degol gyda hyd at 2 le degol</a> ; x ffracsiwn degol gyda hyd at 2 le degol gyda 10, 100; x ffracsiwn degol gydag un digid; ÷ rhif 1 neu 2 ddigid gyda 10 neu 100.